**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithiol drwy Zoom ar ddydd Mawrth, 29 Ebrill 2025**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 1 Mai 2025. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Gwener, 9 Mai, 2025. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Llun, 12 Mai 2025.

**Presennol**: Y Cynghorwyr Gary Pritchard (Arweinydd) (Cadeirydd), Neville Evans, Carwyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas, a Robin Williams.

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr  Glyn Haynes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Derek Owen.

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones

(10:00 y. b. tan 10:25 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2025 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i** |

| | |
|---|---|
| | **diweddaru am y cyfnod Mai i Ragfyr 2025 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaen gynllunio.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2023/24**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft Ymddiriedoleth Addysg Bellach Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn 2023/24 (Atodiad A yr adroddiad).**<br>• **Dirprwyo'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 lofnodi'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Terfynol a'u ffeilio gyda'r Comisiwn Elusennol ar ôl cwblhau'r archwiliad yn foddhaol.**<br>• **Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i gomisiynu adolygiad allanol o weithrediad ac opsiynau buddsoddi'r Ymddiriedolaethau.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn cydymffurfio gyda'r gofyniad gan y Comisiwn Elusennol fod y cyfrifon blynyddol yn cael eu cymeradwyo gan gorff cyfrifol yr Ymddiriedolaethau, sef y Pwyllgor Gwaith yn yr achos hwn** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI | **Dim** |

| | |
|---|---|
| ROI? | |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Porthladd Rhydd – diweddariad a chymeradwyo Cytundeb**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Cymeradwyo llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth arfaethedig rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn fel y Corff Atebol a Phorthladd Rhydd Ynys Môn fel y Corff Llywodraethu.**<br>• **Mewn perthynas â phenderfyniadau blaenorol y Pwyllgor Gwaith ar 19 Mawrth 2024 "Porthladd Rhydd Ynys Môn – Trefniadau Llywodraethu," ac ar 23 Mai 2024 "Cytuno ar Drefniadau ar gyfer Sefydlu Porthladd Rhydd Ynys Môn," bod yr awdurdod dirprwyedig yn cael ei addasu a'i roi i'r Dirprwy Brif Weithredwr yn hytrach na'r Prif Weithredwr.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn nodi'r telerau, egwyddorion a'r arferion sy'n rheoli'r berthynas waith rhwng y partïon y cyfeirir atynt uchod a'r gofynion sydd angen sylw.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Datganiad o ddiddordeb personol yn unig gan y Prif Weithredwr** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |